# Manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu eich sgiliau ac ennill profiad yn y diwydiannau creadigol

## Trosolwg

Mae’r Safon hon yn ymwneud â manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd dysgu sydd ar gael ichi. Mae’n ymwneud â dysgu’r technegau a dulliau gweithio ynghyd â dysgu amdanoch ei hun. Mae’n fodd ichi ddysgu am y sgiliau hoffech chi eu datblygu a’r swydd yr hoffech chi ei chyflawni yn y pendraw.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cydnabod cyfleoedd i ddatblygu eich ymarfer
2. adnabod y prosesau a'r tasgau a gaiff eu cyflawni, eu trefn a'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn eu cyflawni'n effeithiol
3. dangos i eraill eich bod yn meddu ar agwedd gadarnhaol tuag at waith, eich bod yn berson dymunol i weithio gydag ef/gyda hi ac eich bod yn meddu ar ddiddordeb hirdymor yn y maes maen nhw'n gweithio ynddo
4. datblygu perthnasau gyda chydweithwyr profiadol sy'n fodd ichi ddysgu ganddyn nhw
5. manteisio i'r eithaf ar adnoddau eraill i ddysgu am feddalwedd, offer a thechnegau
6. gofyn cwestiynau er mwyn datblygu eich dealltwriaeth
7. gofyn am help pan fyddwch yn ansicr ynghylch sut i gyflawni tasg neu beth sydd ei angen ichi ei wneud
8. canfod pwy all gynnig cefnogaeth a chyngor dibynadwy er mwyn ichi fedru datblygu dealltwriaeth yn gyflym ac yn drylwyr
9. mynd ati i ddysgu am y gwaith a chynorthwyo gyda thasgau
10. darganfod mwy am brotocolau, safonau, arferion ac unrhyw adrannau neu brosesau eraill ynghlwm a sut mae pobl eraill ynghlwm yn cyflawni eu gwaith
11. canfod cyfleoedd i gynnig barnau beirniadol am ansawdd gwaith
12. adnabod y math(au) o swydd(i) hoffech chi eu cyflawni ac a fyddai o bosib yn gweddu ichi
13. adnabod y cam nesaf er mwyn datblygu eich gyrfa
14. gwirio eich bwriadau gyda chydweithwyr i weld a ydyn nhw'n realistig a dichonadwy gan ystyried eu gwybodaeth amdanoch chi

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwysigrwydd datblygu eich sgiliau a sut gallai effeithio ar eich gyrfa
2. sut i wirio bod eich disgwyliadau o ran eich gyrfa ac addysg yn realistig a bod modd eu cyflawni
3. sut i ddangos i eraill eich bod yn deall y pwysau a'r cyfrifoldebau ynghlwm â gwaith ac yn medru dysgu
4. sut a phryd i ofyn cwestiynau am bethau nad ydych chi'n eu deall ar hyn o bryd
5. eich dull dysgu eich hun
6. sut i asesu ansawdd gwaith i safonau artistig disgwyliedig
7. cynllun y gweithle a sut caiff gwahanol leoliadau a chyfleusterau eu cyfeirio atyn nhw
8. y bobl ynghlwm, eu henwau a'u swyddogaethau
9. pobl sy'n ddibynadwy a ffynonellau gwybodaeth agored
10. ffynonellau gwybodaeth eraill angenrheidiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd
11. y cwmpas gaiff ei ganiatáu ichi er mwyn defnyddio cyfarpar a chynorthwyo gyda thasgau
12. gwaith gallwch chi wirfoddoli i'w gyflawni
13. ffactorau iechyd a diogelwch yr holl gyfarpar a'r gweithle

SKSGS2

Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu eich sgiliau ac ennill profiad yn y diwydiannau creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSGS2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Animeiddio, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu, Cydgysylltydd Ol-gynhyrchu, Cynorthwyydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cyfryngau Creadigol |
| **Geiriau Allweddol** | Datblygu, Creadigol, Adborth, Technegau |